PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 8 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson, Sattar a/ac Stubbs |

57 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ebrahim.

58 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

59 : CYNLLUN BUSNES BARGEN DDINESIG DINAS RANBARTH CAERDYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas, y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, Neil Hanratty, Cyfarwyddwr yr Economi a Datblygu a Jon Day, Pennaeth Datblygu Economaidd i'r cyfarfod.

Eglurodd y Cadeirydd y galluogodd yr eitem hon i'r Pwyllgor ystyried Cynllun Busnes drafft cyn cael ystyriaeth y Cyngor Llawn. Ar y cyfan, mae gan y Fargen Ddinesig £1.2 biliwn i'w fuddsoddi; gyda £734m wedi'i ddyrannu i'r Metro, mae £495m ar ôl i'w fuddsoddi ac mae'r Cynllun hwn yn nodi blaenoriaethau i'r buddsoddiad hwn.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd i wneud datganiad lle nododd hyd yr amser y mae wedi'i gymryd i'w cynllun busnes aeddfedu ac roedd yn falch ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Roedd yr Arweinydd am ddioloch i Arweinwyr y gwrthbleidiau a'r berthynas gadarnhaol a'u galluogodd i roi'r datblygiadau diweddaraf i bobl.

Nododd yr Arweinydd y cafwyd pryderon ynghynt o safbwynt Caerdydd ond bellach fod rhai projectau mewn egwyddor wedi'u nodi, roedd yn fodlon ac yn hyderus o fwrw ymlaen a chael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn, ar ôl hynny byddai Caerdydd yn gwbl ymrwymedig ac ni fyddai troi'n ôl.

- Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Gynllun Corfforaethol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau; Cyfeiriodd Aelodau at y Metro Canolog a gofynnodd pa mor gadarn oedd y berthynas â Network Rail a pha mor hyderus oedd Caerdydd wrth ddatblygu hyn. Nododd yr Arweinydd fod perthynas dda â Network Rail, eu bod yn gweithio gyda'r Cyngor a'i bartneriaid wrth ddatblygu tir i'r de o'r orsaf drenau. Ychwanegodd fod hefyd berthynas dda â Llywodraeth Y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru a oedd wedi bod yn gefnogol iawn, a bod cefnogaeth gyffredinol gan y Gweinidog Trafnidiaeth.

- Nododd aelodau fod £40 miliwn wedi'i gofyn amdano o gronfa'r Fargen Ddinesig i'r Metro a gofynnwyd o le y deuai gweddill yr arian. Rhoddodd yr Arweinydd ddadansoddiad o gyllid sef £40 miliwn o'r Fargen Ddinesig, £40

miliwn gan Lywodraeth Cymru, £40 miliwn gan y sector preifat a'r gweddill gan Network Rail a Llywodraeth y DU.

- Roedd aelodau'n falch o weld y ffigurau gwario dangosol, a nodwyd yr hoffai'r Pwyllgor hwn ac eraill mewn awdurdodau lleol eraill weld sut mae hyn yn bodloni adolygiadau porth a oedd yn agosau.

- O ran thema'r Metro, credai'r Aelodau y barnai'r rhan fwyaf o bobl lwyddiant y Fargen Ddinesig ar lwyddiant y Metro. Cytunodd yr Arweinydd â hyn a nododd dyma pam fod y cynnig wedi'i adeiladu o gylch Metro Canolog, a bod angen buddsoddi yn llinellau'r Cymoedd i'r rhain redeg i Orsaf Ganolog well.

- Nododd aelodau y byddai pobl eisiau mwy o fanylion ar fapiau metro, llinellau, safleoedd, gorsafoedd ac ati i weld sut byddai'n gweithio. Rhannai'r Arweinydd rwystredigaeth o gylch y diffyg eglurdeb ynghylch hyn ar hyn o bryd; byddai dewis cynigydd a ffefrir ym mis Mai yn galluogi'r Cyngor i ymgysylltu â nhw a llunio'r map a'r manylion terfynol.

- Nododd aelodau fod yr Aelod Cabinet yn flaenorol wedi dweud bod Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd yn sarhad ar Gaerdydd a gofynnodd a oedd yn fodlon ar ei chynnydd ar hyn o bryd. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod gwelliant sylweddol wedi bod, a oedd yn ddiolch i'r Arweinydd wrth ymgysylltu ag Arweinwyr Awdurdodau eraill. Ychwanegodd fod angen iddo weld beth y câi'r arian o'r rhanbarth ei wario arno; cefnogai'n llawn fabwysiadu cynllun busnes y Cyngor i waredu'r pwerau a gadwyd yn ôl hyn. Nododd yn bersonol nas darbwyllwyd mohono erioed fod y fargen yr un â'r rhai y cytunwyd arnynt yn Lloegr, a'i fod yn setliad gwleidyddol â Llywodraeth Cymru yn defnyddio arian a nodwyd eisoes fel arian cyfatebol yn hytrach na dod o hyd i gyllid newydd.

- Gofynnodd aelodau a oedd unrhyw fanylion am safleoedd datblygu tai ar gael a chawsant wybod nad oedd, ond y byddent yn safleoedd tir llwyd lle na ellid talu costau fel arall, roedd angen canolbwyntio ar ddatblygu tua'r gogledd a hefyd ar y Cymoedd. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei fod yn ddyhead personol ganddo ddefnyddio'r Gronfa Tai ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiadau megis eiddo llai i helpu pobl a effeithiwyd gan y dreth ystafell wely a hefyd fyngalos i bobl hŷn gan greu cymunedau cymysg, ond nododd fod yn rhaid i'r niferoedd fod yn iawn.

- Gofynnodd aelodau beth oedd hynt y Strategaeth Ddigidol ac a nodwyd unrhyw bartneriaid. Dywedodd yr Arweinydd yr anogwyd ef gan sgyrsiau â mawrion y byd digidol i gysylltu â Chaerdydd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod un ymholiad yn ffrwd ariannu gan DCMS Llywodraeth Y DU ar gyfer rhwydweithiau ffibr lleol, gan ddatblygu arian cyfatebol o'r Fargen Ddinesig i gael rhwydwaith ffibr cyflym iawn ar draws y rhanbarth, gan gysylltu â swyddogaethau cyhoeddus megis ysbytai, cynghorau, parciau busnes ac ati. y syniad yw cael asgwrn cefn sy'n annibynnol ar y cwmnïau ffôn. Ychwanegodd fod gan y Cyngor lawer o ffibr yn ased, a gallai adeiladu ystod o fentrau oddi gylch iddo.

  O ran amserlenni, cafodd Aelodau wybod y câi ceisiadau eu cyflwyno ym mis Mehefin ac y cyflawnid pethau 1-2 flynedd wedi hynny.

- Gofynnodd aelodau pam nad oedd mwy o fanylion ar y datblygiadau i'r gogledd a'r de o'r orsaf drenau eto, unrhyw ddarluniau pensaernïol i'w rhannu, ac am sicrwydd pellach y byddai cyfleuster tacsis yn yr orsaf.

- Dywedodd cynghorwyr fod y broses yn un hir iawn, gydag amserlen sylweddol iddi, ar hyn o bryd roedd ar y cam cynllunio busnes, nid cam uwchgynllunio manwl, felly nid oedd darluniau pensaernïol ac ati i'w rhannu a bod hynny flwyddyn i ffwrdd. Un manylyn a ddangoswyd hyd yma oedd y darluniadau cysyniadol. Roedd angen sicrhau cyllid, ac yna byddai cyllideb yn hysbys i fynd i'r cam cynllunio. Ychwanegodd swyddogion y gallai Aelodau hyderu yn y cyfleusterau trafnidiaeth a rhoddwyd sicrwydd y byddai cyfleuster tacsis i'r gogledd o'r orsaf.

  Ychwanegodd yr Arweinydd fod angen bod yn greadigol o ran yr hyn y gellir ei wneud; ar ôl i gyfraniad ariannol Llywodraeth Y DU gael ei sicrhau gellid dylunio'r project.

- Cyfeiriodd aelodau at 'dinasoedd yn adfer' a nodwyd bod llawer o waith wedi'i wneud dros y blynyddoedd ar hyn, gofynnodd aelodau pa dystiolaeth oedd i'w gefnogi. Dywedodd yr Arweinydd nad oedd pwrpas i rai trefi fodoli ond am fel trefi cymudo i Gaerdydd a bod angen newid hyn, mae angen diben arnynt iddynt eu hunain, gyda mentrau lleol ac ati.

  Nododd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru wedi edrych ar hyn yn flaenorol, y bu Strategaethau a chyllid Ewropeaidd a gofynnodd beth fyddai'n wahanol y tro hwn. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Metro'n rhoi cysylltedd, mynediad cyflym i swyddi da ac arian yna'n cael ei wario yn y trefi. Ychwanegodd Aelod Cabinet taw cyfrifoldeb awdurdodau lleol eraill oedd ailystyried pwrpas eu trefi. Ychwanegodd yr arferai fod eisiau gwasanaethau a rennir ar draws y 22 awdurdod lleol ac i osod y gwasanaethau a rennir hyn yn nhrefi'r cymoedd. Gobeithiai fod Cymru bellach wedi cydnabod yr hyn y gall rhanbartholi Dinesig ei wneud, ac yna cael sgyrsiau pwysig am wireddu hynny, a sicrhau y bydd Caerdydd yn rhanddeiliaid yn y Cymoedd.

- Gofynnodd aelodau sut y gall yr Arweinydd ddefnyddio ei rôl i sicrhau bod awdurdodau lleol eraill yn llai mewnblyg a'u bod yn dylanwadu ar nod llawer ehangach. Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau eisoes yn mynd rhagddynt ag Arweinwyr eraill ar sut y gallant gydweithio a rhannu gwasanaethau, gan ehangu ar y trefniadau oedd eisoes mewn lle ac edrych ar e.e. swyddfeydd cefn, gwasanaethau digidol a chynllunio rhanbarthol. Ychwanegodd yr Arweinydd taw dim ond 3 blynedd yn ôl y pasiwyd y Cynllun Datblygu Lleol ac na fyddai'n hir nes bod angen un newydd, gallai fod angen cynllun datblygu strategol cyffredinol gyda llai o gynlluniau datblygu lleol oddi tano.

PENDERFYNWYD: y caiff barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod yr adran 'y ffordd ymlaen' o'r pwyllgor ac y caiff llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

60 : GWAHARDD Y CYHOEDD

**PENDERFYNWYD: y gwrandewir ar y cyflwyniad a'r drafodaeth yn ymwneud â'r eitem hon mewn sesiwn gaeedig gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn rhinwedd paragraff 14 a 21 Rhan 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

61 : DIWEDDARIAD AR Y PENTREF CHWARAEON RHYNGWLADOL

Clywyd y cyflwyniad a'r drafodaeth yn ymwneud â'r eitem hon mewn sesiwn gaeedig gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn rhinwedd paragraff 14 a 21 Rhan 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

62 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd adroddiad ar ohebiaeth ddiweddar i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD: Nodi’r adroddiad.

63 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynllunnir cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ar 12 Ebrill 2018 am 4.30pm.